Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Terrig

**Ffordd Y Llan**
**Treuddyn**
**Yr WyddgrugSir y Fflint**
**CH7 4LN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Terrig

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Terrig |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 94 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 68 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 13.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 16.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 26.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ionawr 2012 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 09/01/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 04/11/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Terrig yn gymuned gynhwysol a chlòs. Mae pob aelod yn gofalu am ei gilydd yn yr ysgol yn dda, gyda staff cydwybodol yn meithrin lles ei gilydd a'r disgyblion yn fedrus. Mae'r disgyblion yn gwrtais ac aeddfed ac yn cydweithio a chyd-chwarae'n hapus a chytûn.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm cyffrous sy'n apelio'n feistrolgar at ddiddordeb y disgyblion. Mae awgrymiadau cyson y disgyblion a'u teuluoedd yn cyfrannu'n llwyddiannus at y sesiynau dysgu perthnasol a diddorol. Mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol y tu fewn a thu allan i'r ysgol, gyda'r disgyblion yn datblygu eu medrau'n effeithiol mewn amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau dysgu yn yr ardaloedd hyn. Mae athrawon yn olrhain cynnydd y disgyblion yn effeithiol ac yn cefnogi eu lles yn fwriadus. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn sicrhau cyflymder addas i'r sesiynau dysgu. Mae trefniadau cyffredinol yr amgylchedd dysgu yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae datblygiad medrau llafar bron bob disgybl yn gryf, gyda'r disgyblion sy'n newydd-ddyfodwyr i'r Gymraeg a'u cyfoedion yn defnyddio geirfa eang a phatrymau cywir yn naturiol. Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf yn datblygu'n dda; er hyn, nid yw medrau darllen y disgyblion yn datblygu'n ddigon effeithiol yn unol â'u hoed a'u cam datblygu yn y ddwy iaith. Mae medrau rhifedd a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol y disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae'r pennaeth a'r staff wedi meithrin perthynas waith agos â'r rhieni. Mae'r rhieni'n cyfrannu'n fuddiol at themâu a sesiynau dysgu eu plant yn yr ysgol. Mae'r pennaeth yn arweinydd cydwybodol a gweithgar sy'n blaenoriaethu lles y disgyblion a'r staff yn llwyddiannus. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i holl weithgareddau'r ysgol ac yn adnabod ei chryfderau a'i meysydd i'w gwella yn dda.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Parhau i ddatblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion

A2 Sicrhau cyflymder addas i'r sesiynau dysgu er mwyn cefnogi medrau dysgu annibynnol disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Terrig yn gymuned gynhwysol a hapus. Mae bron bob disgybl yn mwynhau bod yn aelod o'r ysgol, ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd gwerthfawr mae staff yn darparu ar eu cyfer. Mae'r holl staff yn gweithio'n ddiwyd a chydwybodol i sicrhau amgylchedd dysgu cadarnhaol a chynhaliol i bob disgybl. Mae'r rheolau clir a grëwyd gan y disgyblion yn gymorth iddynt ddeall pwysigrwydd bod yn garedig ag eraill ac yn cefnogi eu hymddygiad cadarnhaol yn fuddiol. Mae disgyblion yn barod i drafod unrhyw bryder ac yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwerthfawrogi eu bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg gan y staff bob amser.

Mae'r pennaeth yn ymroddedig i'r ysgol ac yn arwain yn ddiymhongar a chydwybodol. Mae ganddi weledigaeth glir i sicrhau bod y disgyblion yn hapus mewn cymuned weithgar a chartrefol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun, y staff a'r disgyblion. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus i gefnogi cynnydd parhaus ym medrau disgyblion.

**Ciplun 1: Datblygu medrau llafar disgyblion**

Mae ethos cadarn o ddatblygu medrau llafar Cymraeg y disgyblion yn amlwg drwy'r ysgol, yn enwedig y gefnogaeth ar gyfer disgyblion sy'n cael eu hadnabod fel newydd-ddyfodwyr i'r Gymraeg.

Ar fynediad i'r ysgol, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg. Mae staff y disgyblion ieuengaf yn cefnogi'r disgyblion yn fedrus i gaffael y Gymraeg, er enghraifft wrth gyflwyno a chyfoethogi geirfa ac arddel patrymau iaith cywir trwy ganu hwiangerddi a rhigymau yn gyson.

Mae'r staff cyfan yn trochi'r disgyblion yn yr iaith yn barhaus, gyda'r disgyblion hŷn yn adeiladu ar eu medrau yn dda. Trwy hyn, maent yn cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith gan drafod amrywiaeth o themâu yn ddeallus ac aeddfed gyda staff a chyfoedion.

Mae staff yn darparu cwricwlwm ddiddorol sy'n hybu datblygiad medrau y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae bron bob aelod staff yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn llunio themâu ysgogol gan ystyried awgrymiadau disgyblion a rhieni yn fedrus. Mae llawer o'r ardaloedd yn y dosbarthiadau wedi eu sbarduno gan chwilfrydedd y disgyblion. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ymdeimlad o berchnogaeth dros yr hyn maent yn ei ddysgu. Cyfoethogir y ddarpariaeth ymhellach gan deithiau effeithiol sy'n galluogi pob disgybl i ddatblygu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae'r disgyblion yn siarad yn fyrlymus ac yn ymfalchïo mai yn eu pentref nhw y sefydlwyd adran gyntaf Mudiad yr Urdd. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn elwa o'r profiadau i gyflawni gwaith o ansawdd uchel.

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd nodedig yn natblygiad eu medrau digidol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn defnyddio algorithmau, yn codio ac yn creu cyflwyniadau gan ddefnyddio delweddau a cherddoriaeth yn greadigol. Yn ogystal, maent yn datblygu eu medrau llafar ac ysgrifennu, rhifedd a digidol yn grefftus mewn cyd-destunau diddorol, er enghraifft wrth greu gwefan am anifeiliaid prin y byd yn

dilyn ymweliad â sŵ. O ganlyniad i'r ddarpariaeth gyfoethog, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn, yn enwedig yn eu medrau digidol.

Mae athrawon yn gwerthuso ac yn asesu cynnydd a datblygiad disgyblion unigol a grwpiau penodol yn effeithiol. Maent yn cofnodi ac yn olrhain cyflawniad disgyblion yn bwrpasol. O ganlyniad, mae gan athrawon a chymhorthyddion wybodaeth gyfredol am gyflawniad y disgyblion sy'n eu galluogi i'w herio yn gyson. Maent yn addasu eu cynlluniau wrth ymateb i lwyddiannau neu heriau dysgu'r disgyblion yn werthfawr. At ei gilydd, mae athrawon yn cyflwyno gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion, yn datblygu'r dysgu ar gyflymder addas ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau a llwyddo. Fodd bynnag, ar adegau, mae cyflymder yr addysgu a threfniadau'r amgylchedd dysgu yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae mwyafrif y disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio ystod dda o ddulliau darllen yn effeithiol i adeiladu geiriau syml. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn darllen yn gynyddol gywir, er enghraifft wrth ddatblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol destunau. Fodd bynnag, mae'r lleiafrif yn llai hyderus wrth ddefnyddio a datblygu eu dulliau darllen yn y Gymraeg ac nid ydynt yn llwyddo i ddehongli ystyr y testun yn ddigon manwl bob amser. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau dysgu amrywiol yn Saesneg.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu diwylliant buddiol o werthuso a monitro'r ddarpariaeth er mwyn hunanwella yn gyson. Mae staff yn cymryd rhan fuddiol wrth ymateb i ganfyddiadau gweithgareddau gwerthuso. Mae hyn yn golygu bod arweinwyr a staff yn gwella ac yn cryfhau'r ardaloedd sydd angen sylw yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent wedi adnabod yr angen i addasu eu dull o ddarparu adborth i ddisgyblion yn amserol wrth iddynt gyflawni tasgau ysgrifennu. Mae'r dull hwn yn galluogi'r athrawon i dynnu sylw disgyblion at agweddau o'u gwaith sydd angen eu gwella yn fuddiol. Trwy hyn, mae disgyblion yn adnabod ac yn ymateb i gamgymeriadau yn amserol sy'n cyfrannu'n gadarn at eu cynnydd cyson.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau creu marciau yn bwrpasol wrth ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar. Wrth i fedrau'r disgyblion ddatblygu, maent yn dod i adnabod ystod gynyddol o lythrennau ac yn arbrofi wrth eu cyfuno i gyflwyno geiriau syml. Erbyn brig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ysgrifenwyr fwyfwy mentrus gan ysgrifennu'n aeddfed mewn ffurfiau gwahanol.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu'n effeithiol. Maent yn datblygu ystod gynyddol o fedrau rhifedd yn gyson wrth eu cymhwyso'n llwyddiannus mewn gweithgareddau dysgu penodol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn dangos dealltwriaeth gynnar o fás, er enghraifft wrth ddefnyddio pwmpenni er mwyn darganfod pa rai sy'n drwm ac yn ysgafn. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso ystod dda o fedrau rhifedd yn effeithiol, sy'n cynnwys defnyddio graffiau llinell yn gywir wrth gofnodi a dehongli data o waith ymchwil ar effaith ffermio olew palmwydd.

Mae staff yn darparu cymorth ac arweiniad yn rhagweithiol i ddisgyblion sy'n profi anhawster yn eu dysgu ac yn cyfathrebu'n effeithiol â theuluoedd wrth gynllunio'r

ddarpariaeth fwyaf addas ar eu cyfer. Mae’r cynlluniau dysgu unigol yn amlinellu’n glir anghenion y disgyblion ac yn cyfrannu at allu’r athrawon i gefnogi a darparu’n fwriadus ar eu cyfer. O ganlyniad, mae bron bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae’r ysgol wedi creu cysylltiadau cryf â’r rhieni. Maent yn datgan bod staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn gadarnhaol i awgrymiadau, er enghraifft wrth ddiweddaru gwefan yr ysgol. Maent yn gwerthfawrogi cael eu cynnwys ym mywyd yr ysgol drwy gynnig syniadau i themâu a chyfrannu at ddysgu eu plant.

Mae’r llywodraethwyr wedi cryfhau eu gweithdrefnau cefnogi a herio yn ddiweddar ac wedi mynd ati i sefydlu amserlen fuddiol o weithgareddau huanwerthuso. Maent yn siarad â disgyblion, yn craffu ar waith ac yn ymweld â’r dosbarthiadau yn rheolaidd gyda ffocws pendant ar y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion. Maent yn herio’n bwrpasol gan gadw cydbwysedd da wrth gefnogi’r arweinwyr.

**Ciplun 2: Cefnogi lles staff**

Mae’r llywodraethwyr yn ystyried llwyth gwaith yr holl staff, gan gynnwys y pennaeth, yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod materion lles staff ar agenda bob cyfarfod llywodraethol. Er enghraifft, maent wedi sefydlu diwylliant ble mae trafodaethau agored am les a phwysau gwaith staff yn arwain at ddealltwriaeth gytûn o beth sy’n dderbyniol ac yn ddisgwyliedig ohonynt fel rhan o’u dyletswyddau dyddiol yn yr ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  09/01/2025